OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 1080 (Cy.127)

# ANIFEILIAID, CYMRU
# IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Mewnforio Adar Caeth) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *28 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Erwropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno:

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Mewnforio Adar Caeth) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

**2.** Yn rheoliad 16(4) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006(**3**), yn lle "1 April 2007" rhodder "1 July 2007".

**3.** Dirymir rheoliad 2(3) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2006(**4**) .

**4.** Dirymir Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006(**5**).

(**1**) O.S. 2005/2766, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/3329.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2006/1536 (Cy. 153), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2128 (Cy. 198) ac O.S. 2006/3452 (Cy. 313).
(**4**) O.S. 2006/2128 (Cy. 198).
(**5**) O.S. 2006/3452 (Cy. 313).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

28 Mawrth 2007

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1536 (Cy. 153)) ("y prif Reoliadau").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 16(4) o'r prif Reoliadau er mwyn rhoi effaith i'r estyniad tan 1 Gorffennaf 2007 ar waharddiad cyfredol yr Undeb Ewropeaidd ar fewnforio adar caeth o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Darperir ar gyfer y gwaharddiad gan ddeddfwriaeth y Gymuned o dan Benderfyniad y Comisiwn 2005/760/EC ynghylch mesurau diogelu penodol o ran ffliw adar pathogenig iawn mewn trydydd gwledydd penodol ar gyfer mewnforio adar caeth (OJ Rhif L285, 28.10.2005, t. 52), fel y'i diwygiwyd, yn benodol gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/862/EC, a chan Benderfyniad y Comisiwn dyddiedig 23 Mawrth 2007 (OJ Rhif L84, 24.03.2007, t.44), sy'n rhoi effaith i estyniad pellach ar y gwaharddiad.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn dirymu diwygiadau cynharach i'r prif Reoliadau a oedd yn rhoi effaith i estyniadau blaenorol ar y gwaharddiad i fewnforio.